YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2022 – Dosbarth y Tonnau

# O'r Pridd i'r Plât

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw i ddatblygu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol trwy ddysgu a deall y broses o dyfu a chynhyrchu bwyd. Trwy'r uned ddysgu, bwriadwn feithrin dysgwyr egwyddorol a gwybodus ynglŷn a'u cyfrifoldeb o ran cynaladwyedd y blaned. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y dysgwyr yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud penderfyniadau rhesymol a iachus am eu ffordd o fyw, yn ogystal â datblygu eu sgiliau ymchwilio a chorff o wybodaeth am brosesau bywyd planhigion.**

## Y Dyniaethau

Deall bod tywydd a'r hinsawdd yn effeithio ar dyfiant planhigion ac ar gynhyrchu bwyd.
Dechrau gwerthfawrogi a gofalu am bethau byw, a deall ein cyfrifoldeb tuag at ein hamgylchedd.
Adnabod bod ein gweithredoedd yn cael effaith ar gymunedau ac yr amgylchedd.

## Celfyddydau Mynegiannol

Dysgu sut mae artistiaid yn darlunio planhigion, sut caiff planhigion eu cynrychioli mewn celf a sut i wneud darluniadau arsylwadol o blanhigion e.e. gwaith Georgia O'Keeffe.

Mwynhau canu caneuon yn ymwneud â'r thema.

## Iechyd a Lles

Dysgu gweithio fel tîm,
Mwynhau gofalu am yr amgylchfyd a'r planhigion o gwmpas yr ysgol.
Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd, ymarfer sgiliau athletau a pharatoi ar gyfer y mabolgampau,
Datblygu sgiliau trin pêl,
Dysgu am bwysigrwydd ffrwythau a llysiau yn ein diet.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dysgu enwau rhannau o blanhigion a'u cylch bywyd ;
Deall beth yw'r amodau delfrydol ar gyfer tyfu planhigion;
Cyflawni profion teg a gwneud mesurau cywir;
Mwynhau cynllunio ymchwiliad;
Rhagfynegi canlyniadau;

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Creu cornel chwarae Canolfan Arddio a mwynhau chwarae rôl.
Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, a dysgu sut i ysgrifennu **adroddiad ffeithiol** a **chyfarwyddiadau**.
Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol.

## Mathemateg a Rhifedd

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, lluosi a rhannu.
Defnyddio arian, parhau i ddatblygu sgiliau dweud yr amser a datblygu ein sgiliau datrys problem.
Datblygu ein sgiliau mesur – hyd, cynhwysedd a mas.
Archwilio siapau 2D a 3D
Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2022 – Dosbarth y Tonnau

# Bant â ni i gynllunio!

**Ein Cywaith Cloi**

Gobeithiwn gynnal bore coffi Masnach De gyn yr ysgol. Gobeithiwn hefyd ddefnyddio'r cynnyrch rydym wedi eu tyfu yn yr ysgol!

Mae angen dŵr ar blanhigion.
Olwen

Mae tatws yn tyfu yn y pridd. Willow




Mae angen haul ar blanhigion i dyfu.
Maeve

Chi'n gallu bwyta pethau chi'n tyfu!
Sid

Rydym eisiau tyfu blodau a llysiau!
Pawb

Gallwn ni ddarllen Jac a'r goeden ffa!
Tanwen

Ydy pob bwyd yn tyfu o dan y ddaear?
Mabli